

Rhif: WG43034



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymateb

Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig Drafft (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021

Medi 2021

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.
OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80391-077-2

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru).

Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill ar gais.

Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Yr Is-adran Perfformiad a
Phartneriaethau – Llywodraeth Leol
Y Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: LGPartnerships@gov.wales

Copïau Ychwanegol

Mae'r crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori yn cael eu cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig, a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cynnwys

ADRAN UN: Cyflwyniad	4
Yr ymgynghoriad hwn.....	4
Pwy ymatebodd?.....	4
Ymgysylltu ar yr ymgynghoriad	5
Y camau nesaf.....	5
Dull o ddatblygu'r grynodeb o ymatebion	5
ADRAN DAU:.....	7
Cwestiwn Un yr Ymgynghoriad:	7
Cwestiwn Dau'r Ymgynghoriad	7
Cwestiwn 2 a)	7
Cwestiwn 2 b).....	9
Cwestiwn 2 c)	10
Cwestiwn 2 d).....	11
Cwestiwn 2 e).....	13
Cwestiwn Tri'r Ymgynghoriad:	15
Cwestiwn Pedwar yr Ymgynghoriad.....	16
Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Ymgynghoriad ar Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforaethol Drafft (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021.....	18
Atodiad A: Rhestr o'r ymatebwyr.....	24

ADRAN UN: Cyflwyniad

Yr ymgynghoriad hwn

Ar 12 Gorffennaf 2021, lansiodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) ymgynghoriad ar ail gyfres o Reoliadau drafft yn ymwneud â Chyd-bwyllgorau Corfforedig, fel y darperir ar eu cyfer yn Neddff Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (y Ddeddf).

Roedd yr ymgynghoriad cyntaf, a ddaeth i ben ar 4 Ionawr 2021, yn ymwneud â Rheoliadau Sefydlu drafft a fyddai'n golygu bod modd sefydlu pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig yng Nghymru. Cafodd y Rheoliadau Sefydlu eu gwneud ar 17 Mawrth 2021, ochr yn ochr â nifer o offerynnau statudol, a oedd yn sicrhau y byddai'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau y byddai disgwyl iddynt fod yn gymwys i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru o'r diwrnod cyntaf; a hefyd i sicrhau llywodraethu a goruchwyliaeth briodol.

Roedd yr ail ymgynghoriad hwn yn parhau â'r broses o sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol y byddai'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gweithredu o fewn iddi ac yn gofyn am safbwyntiau ynghylch cymhwysio elfennau penodol o'r fframwaith hwnnw fel y'u darperir gan Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig Drafft (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 ("Rheoliadau Drafft Rhif 2). Mae hyn wedi canolbwyntio'n bennaf ar reoleiddio cyfarfodydd a thrafodion y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, swyddogaethau 'swyddogion gweithredol' penodol i gefnogi gwaith y Cyd-bwyllgor Corfforedig, sef y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Ariannol, ac i unigolion eraill gyflawni swyddogaethau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, er enghraifft ei staff neu ei is-bwyllgorau, yn ogystal â rhywfaint o ddarpariaeth gyffredinol o ran staff y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae Rheoliadau Drafft Rhif 2 hefyd yn gwneud nifer fach o ddiwygiadau amrywiol a chanlyniadol i roi effaith lawn i'r darpariaethau hyn.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn am 8 wythnos rhwng 12 Gorffennaf a 6 Medi 2021, a chafodd ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Anfonwyd y ddolen i'r ddogfen ymgynghori at amrywiaeth eang o randdeiliaid, nifer ohonynt yn arweinwyr proffesiynol allweddol mewn llywodraeth leol a fu'n ymwneud â chyd-gynhyrchu'r manylion polisi y tu ôl i'r Rheoliadau Drafft Rhif 2.

I ddechrau, gofynnwyd nifer o gwestiynau yn ymwneud â chynnwys Rheoliadau Drafft Rhif 2 yn ystod yr ymgynghoriad ar y Rheoliadau Sefydlu, pan gyfeiriom atynt fel 'Rheoliadau sy'n Gymwys yn Gyffredinol'. Y rhesymeg y tu ôl i hyn oedd bod y Rheoliadau atodol hyn yn angenrheidiol i gefnogi gweithredu'r Rheoliadau Sefydlu, a byddant yn ffurfio pecyn o ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae'r ymatebion bryd hynny wedi dylanwadu ar ein gwaith parhaus ar gynnwys y Rheoliadau gyda llywodraeth leol.

Pwy ymatebodd?

Arweiniodd y broses ymgynghori at 23 o ymatebion ysgrifenedig. Nodir yr ymatebwyr fel a ganlyn:

- 14 Awdurdod Lleol (gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC))
- 6 o Asiantaethau'r Llywodraeth / sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus

- 1 Archwilydd / Rheoleiddiwr
- 1 Sefydliad trydydd sector
- 1 Corff cynrychioli, corff proffesiynol neu gymdeithas

Mae rhestr lawn o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar gael yn **Atodiad A**.

Ymgysylltu ar yr ymgynghoriad

Yn ogystal â'r broses ymgynghori ffurfiol, mae swyddogion wedi gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol yn yr awdurdodau lleol ar ddatblygu'r bwriad y tu ôl i Reoliadau Drafft manwl Rhif 2. Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu ehangach yn ystod yr ymgynghoriad ar y Rheoliadau Sefydlu, a chasglwyd barn rhanddeiliaid yn ystod y sesiynau hynny a briffiau technegol wrth ddatblygu'r Rheoliadau Drafft Rhif 2.

Mae swyddogion hefyd wedi mynychu nifer o gyfarfodydd lle bu trafodaeth am Gyd-bwyllgorau Corfforedig, ac wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu hunain.

Y camau nesaf

Mynegodd y Gweinidog ei diolch am yr ymgysylltu adeiladol a helpodd i lunio Rheoliadau Sefydlu cychwynnol y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, y Rheoliadau atodol hyn, a hefyd am ddatblygu Canllawiau Statudol drafft y Cyd-bwyllgorau Corfforedig (sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd). Mae Arweinwyr llywodraeth leol, swyddogion CLILC a rhanddeiliaid allweddol eraill wedi cymryd rhan drwy gydol y broses o ddatblygu cynigion y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ac roedd y mewnbwn hwn yn amhrisiadwy wrth lunio'r gwaith hwn.

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi tynnu sylw at nifer o feysydd lle dylid diwygio Rheoliadau Drafft Rhif 2 i sicrhau eu bod yn gweithio'n ymarferol, ac mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar iawn am y safbwyntiau hynny. Bydd y newidiadau hyn yn helpu i adeiladu ar yr hyn sydd eisoes ar waith i sicrhau y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ychwanegu gwerth gwirioneddol at y dirwedd ranbarthol yng Nghymru, gyda Rheoliadau a chanllawiau'n darparu'r cyfuniad o eglurder a hyblygrwydd a ofynnwyd amdano. Amlygwyd y meysydd lle mae Rheoliadau Drafft Rhif 2 yn cael eu diwygio o dan yr adran "Ymateb Llywodraeth Cymru" tua diwedd y ddogfen hon.

Mae'r Gweinidog wedi cadarnhau ei hymrwymiad i barhau i weithio gydag Arweinwyr ym mhob un o ranbarthau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gyda CLILC, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a phartneriaid eraill i sicrhau bod yr holl waith i gefnogi'r broses o roi'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar waith yn diwallu anghenion llywodraeth leol a phartneriaid.

Dull o ddatblygu'r grynodedb o ymatebion

Bwriad y ddogfen hon yw rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd. Nid yw'n ceisio nodi'n fanwl bob pwynt a godwyd gan ymatebwyr. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn pedwar cwestiwn yn ymwneud â:

- Eglurder cyffredinol Rheoliadau Drafft Rhif 2

- Eglurder elfennau penodol Rheoliadau Drafft Rhif 2
- Yr effaith a ragwelir ar y Gymraeg
- Unrhyw faterion cysylltiedig eraill.

Nodwyd y grynodedb o'r ymatebion yn unol â'r pedwar cwestiwn.

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, cymeradwyodd dau awdurdod lleol ymateb CLILC yn llawn fel rhan o'u hymateb eu hunain. Lle mae hyn wedi digwydd, ystyriwyd ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel barn yr awdurdod lleol perthnasol a'u cynnwys yn y cyfrifiadau amrywiol.

Mewn rhai achosion, mae ymatebydd wedi darparu un ymateb cyffredinol neu wedi ymateb i faterion penodol ar Rheoliadau Drafft Rhif 2 o dan ymateb mwy cyffredinol o dan 'materion eraill'. Mae'r ymateb hwn yn cynnwys yr ymatebion hynny fel rhan o'r cwestiwn ar 'faterion eraill cysylltiedig', ond bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y sylwadau hynny yn erbyn y materion penodol / rhannau o'r Rheoliadau Drafft Rhif 2 fel y bo'n briodol.

ADRAN DAU:

Cwestiwn Un yr Ymgynghoriad:

Roedd Cwestiwn 1 yn gofyn am farn ynghylch a oedd Rheoliadau Drafft Rhif 2 yn glir, ac am fanylion ynghylch sut y gellid eu gwneud yn gliriach os nad oeddent yn glir.

Cafwyd dau ymateb ar hugain i'r cwestiwn hwn. O'r rhai a ymatebodd, teimlai deunaw fod Rheoliadau Drafft Rhif 2 yn glir, neu eu bod yn ymddangos yn glir ar y cyfan, ac yn adlewyrchu'r egwyddorion sylfaenol y dylid trin y Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel aelod o deulu llywodraeth leol. Teimlai un ymatebydd nad oedd yn glir beth yw'r dull mwy cyffredinol o roi deddfwriaeth llywodraeth leol ar waith, ac yn ei gwneud yn anodd yn y lle cyntaf i olrhain effaith y newidiadau arfaethedig.

O'r rhai a oedd yn credu fod Rheoliadau Drafft Rhif 2 yn glir, gwnaed nifer o bwyntiau ychwanegol:

- Roedd un ymatebydd yn croesawu bod Rheoliadau'n caniatáu disgresiwn lleol sy'n sail i ddull y Cyd-bwyllgor Corfforedig.
- Gofynnodd un ymatebydd am wybodaeth ychwanegol ynghylch trefniadau craffu ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig.
- Roedd nifer yn teimlo, er bod y Rheoliadau'n glir, y byddai wedi bod yn fuddiol rhoi'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar waith pe bai darpariaeth ar gyfer pob agwedd ar ddeddfwriaeth y Cyd-bwyllgorau Corfforedig mewn un set o Reoliadau.
- Teimlai rhai y byddai'n ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru ddarparu adnodd a oedd yn cynnwys yr holl Reoliadau perthnasol a'r hyn roeddent yn darparu ar ei gyfer mewn un ddogfen, neu fel rhan o Ganllawiau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.
- Dadl un ymatebydd oedd y dylai'r Rheoliadau fynnu bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cyfethol cynrychiolaeth benodol o sectorau fel y sector cynghorau tref a chymuned, ac y dylai cynrychiolwyr cynghorau tref a chymuned fod yn rhan o weithredu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ym mhob rhanbarth o'r dechrau.

Yn ogystal â'r uchod, dywedodd un ymatebydd oedd heb ymateb i'r cwestiwn penodol y dylid ychwanegu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig at y rhestr o sefydliadau yr oedd y dyletswyddau Cynaliadwyedd a Llesiant yn berthnasol iddynt. Roeddent hefyd yn ceisio eglurder ynghylch sut y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gweithredu ochr yn ochr â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Cwestiwn Dau'r Ymgynghoriad

Roedd Cwestiwn 2 yn gofyn am farn ynghylch a oedd Rheoliadau Drafft Rhif 2 yn glir yn y meysydd penodol roeddent yn darparu ar eu cyfer. Rhannwyd Cwestiwn 2 yn sawl rhan – a) i e). Ym mhob achos, gofynnodd yr ymgynghoriad a oeddent yn credu bod Rheoliadau Drafft Rhif 2 yn ddigon clir ac, os nad oeddent yn glir, sut y gellid eu gwneud yn gliriach. Ceir crynodeb isod o bob un ohonynt.

Cwestiwn 2 a)

A yw'r Rheoliadau Drafft Rhan 2 yn Rhan 1 yn gwneud darpariaeth ar gyfer swyddi 'swyddogion gweithredol' penodol (Prif Weithredwr, Swyddog Monitro a Phrif Swyddog Ariannol) i gefnogi gwaith y Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Cafwyd ugain ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd tri ar ddeg o'r ymatebwyr yn cytuno bod y darpariaethau yn glir y rhan hon, nid oedd dau'n teimlo bod y darpariaethau'n glir ac ni wnaeth pump fynegi barn, ond roeddent yn cynnwys sylwadau cyffredinol ar y rhan.

O'r rhai a oedd yn cytuno fod y darpariaethau'n glir, gwnaed nifer o bwyntiau ychwanegol:

- Cytundeb bod Rheoliadau Drafft Rhif 2 yn cynnwys y darpariaethau y credir eu bod yn angenrheidiol er mwyn ymestyn y darpariaethau mewn deddfwriaeth llywodraeth leol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, a byddai hyn yn ddefnyddiol er mwyn sicrhau cysondeb a thryloywder wrth wneud penderfyniadau.
- Nid yw'r gofynion o ran adnoddau, a'r effaith ar gapasiti cynghorau cyfansoddol, er mwyn sefydlu a gwasanaethu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi'u nodi'n llawn eto ac mae'n debygol y bydd gofynion adnoddau parhaus sylweddol ar awdurdodau o ran gweinyddu a chyflawni swyddogathau'r Cyd-bwyllgorau. Gofynnodd un ymatebydd am eglurder ynghylch sut y byddai'r rolau yn Rhan 1 o Rheoliadau Drafft Rhif 2 yn cael eu hariannu.
- Nododd un ymatebydd fod rôl y Swyddog Monitro yn glir. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod Rheoliad 8(3) yn groes i'r geiriad yn Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 i'r graddau fod y ddarpariaeth Deddf 1989 sydd mewn grym yn darparu y bydd y staff, yr adeiladau a'r adnoddau a nodwyd sy'n ofynnol ym marn y Swyddog Monitro yn cael eu darparu.
- Bydd angen i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig reoli a monitro'r broses o benodi swyddogion statudol yn ofalus er mwyn sicrhau cysylltiadau priodol rhwng y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r awdurdodau lleol perthnasol, gyda ffin glir rhwng y gwahanol gylchoedd gwaith a rolau.
- Manteisiodd un ymatebydd ar y cyfle i alw am fwy o wybodaeth / darpariaeth o ran modelau cyflogaeth.

O'r rhai nad oeddent yn credu fod y darpariaethau'n glir, gwnaed y pwyntiau ychwanegol a ganlyn:

- Roedd y dull cyffredinol o ymdrin â'r Rheoliadau, h.y. nad ydynt yn hunangynhwysol ac yn hytrach yn diwygio sawl rhan arall o fframwaith deddfwriaethol llywodraeth leol, yn golygu ei bod yn anodd canfod a deall yn llawn beth yw eu heffaith, ac nad yw'n ddefnyddiol ar gyfer sicrhau trefniadau o'r fath.
- Byddai rhagor o nodiadau esboniadol sy'n cynnwys detholiadau wedi'u marcio o'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio, ynghyd ag esboniad naratif gwrthrychol, o gymorth wrth ddehongli'r Rheoliadau.
- Er bod y Rheoliadau Drafft Rhif 2 yn glir i raddau helaeth yn y rhan hon, nododd un ymatebydd bod angen mwy o eglurder ynghylch rôl y Swyddog Monitro. Yn benodol, os oedd Rheoliad 8 (2) yn gwahardd y Swyddog Monitro rhag darparu cyngor cyfreithiol.

Yn ogystal, gwnaeth ymatebwyr nad oeddent yn mynegi barn y naill ffordd na'r llall y pwyntiau canlynol ar eglurder Rheoliadau Drafft Rhif 2.

- Mynegodd un ymatebydd bryderon ynghylch dileu rôl y Prif Swyddog Llywodraethu, a theimlai fod gwerth i rôl y Prif Swyddog Llywodraethu.
- Y dylai swyddogion statudol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig awdurdod lleol fod wedi eu gwahanu heb unrhyw opsiwn o 'wisgo dwy het statudol' yn y rolau hyn. Er hynny, nodwyd nad oedd yn glir a oedd y cynnig yn dal i ganiatáu / bwriadu cael mandadau deul.
- Bod rhaid i Swyddogion Monitro sicrhau bod gan bwyllgorau craffu lwybrau agored a hygyrch ar gyfer ymgysylltu fel bod yr holl randdeiliaid, gan gynnwys y sector gwirfoddol, yn gallu ymgysylltu.
- Os gweithredir Rheoliad 8(2) sy'n gwahardd y Swyddog Monitro rhag darparu cyngor cyfreithiol ar sut y dylid arfer swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, teimlai dau ymatebydd y gallai beri dryswch o ran dyletswyddau ehangach y Swyddog Monitro o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, ac y dylid ei ddileu.
- Dylid diwygio Reoliad 4(2) sy'n galluogi Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol i adolygu tâl Prif Weithredwyr y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ond yn eithrio'n benodol unrhyw dâl i aelodau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, er mwyn dileu'r gwaharddiad.

Manteisiodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar y cyfle i godi nifer o bwyntiau mewn perthynas â chymhwyso'r Fframwaith Moesegol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig (er y dylid nodi nad yw hyn yn rhan o Reoliadau Drafft Rhif 2). Roedd y pwyntiau'n cynnwys:

- Y dylai Pwyllgor Safonau perthnasol un o "awdurdodau cartref" y Swyddog Monitro dynodedig allu cyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r pwyllgor safonau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 mewn perthynas â materion safonau moesegol sy'n ymwneud â Chyd-bwyllgorau Corfforedig.
- Y dylid cynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig (a'u his-bwyllgorau), fel "awdurdod perthnasol" yn a49 Deddf 2000 cyn gynted â phosibl, er mwyn sicrhau bod holl aelodau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'u his-bwyllgorau yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn safonau moesegol.
- Wrth gymhwyso'r fframwaith moesegol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, dylid gwneud darpariaeth i sicrhau ei bod yn ofynnol i unrhyw berson sy'n aelod neu'n gyfranogwr mewn is-bwyllgor i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol, ac yn rhan o'r fframwaith safonau moesegol.
- Yr angen am eglurder ynghylch gweithredu pwerau atal/gwahardd Panel Dyfarnu Cymru a phwyllgorau safonau pan fydd yr Ombwdsmon yn cyfeirio aelod am dorri'r Cod Ymddygiad.

Cwestiwn 2 b)

A yw Rheoliadau Drafft Rhif 2 yn Rhan 2 yn darparu'n glir ar gyfer darpariaethau cyffredinol mewn perthynas â staff y Cyd-bwyllgor Corfforedig?

Cafwyd deunaw ymateb i'r cwestiwn hwn. Teimlai pedwar ar ddeg o ymatebwyr fod Rhan 2 o Reoliadau Drafft Rhif 2 yn darparu'n glir ar gyfer darpariaethau cyffredinol mewn perthynas â staff y Cyd-bwyllgor Corfforedig, nid oedd dau ohonynt yn credu bod hynny'n wir, ac ni wnaeth dau ymatebwr fynegi barn benodol y naill ffordd na'r llall.

O'r rhai a oedd yn credu fod Rhan 2 yn darparu'n glir ar gyfer darpariaethau cyffredinol mewn perthynas â staff, gwnaed y pwyntiau ychwanegol a ganlyn:

- Bod Rheoliadau Drafft Rhif 2 yn cynnwys y darpariaethau y credir eu bod yn angenrheidiol er mwyn ymestyn y darpariaethau mewn deddfwriaeth llywodraeth leol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, a bydd hyn yn ddefnyddiol er mwyn sicrhau cysondeb a thryloywder wrth wneud penderfyniadau.
- O ran staffio (ac adnoddau'n gyffredinol), gan ystyried y potensial ar gyfer cyfuno rhai swyddogaethau, holodd un ymatebydd a oedd angen patrwm cyflogaeth gymysg (er enghraifft, cyflogaeth uniongyrchol a secondiadau) gyda rhai swyddogion yn cefnogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fel rhan o'u dyletswyddau parhaol gyda'u cyngor cyfansoddol.

O'r rhai nad oeddent yn credu fod y darpariaethau'n glir mewn perthynas â staff, gwnaed y pwyntiau ychwanegol a ganlyn:

- Bod y dull cyffredinol o ymdrin â'r Rheoliadau, h.y. nad ydynt yn hunangynhwysol, a diwygio sawl rhan arall o fframwaith deddfwriaethol llywodraeth leol, yn golygu ei bod yn anodd canfod a deall yn llawn beth yw eu heffaith, ac nad yw'n ddefnyddiol ar gyfer sicrhau trefniadau o'r fath.

Yn ogystal, gwnaed y pwyntiau canlynol gan ymatebwyr nad oeddent yn mynegi barn y naill ffordd na'r llall ar eglurder Rhan 2 o Reoliadau Drafft Rhif 2.

- Mynegwyd pryder ynghylch penodi staff a allai fod heb unrhyw wybodaeth leol am yr ardal ddaearyddol dan sylw i wasanaethu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.
- Y dylai'r trefniadau staffio fod yn debyg i rai'r Prif Gynghorau er mwyn hyrwyddo atebolrwydd cyhoeddus.
- O ran Rheoliad 9 a'r cyfeiriad at "swyddog priodol", nododd un ymatebydd fod y gwelliant sy'n mewnosod is-adran 3A yn Adran 270 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cyfeirio at "aelod o staff" yn hytrach na swyddog, fel y darperir ar ei gyfer ar hyn o bryd yn is-adran 3 o adran 270 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Er cysondeb, teimlai'r ymatebydd y dylid diwygio'r ddarpariaeth i fod yn 'swyddog' ac nid yn 'aelod o staff'. Teimlent ei bod yn arferol i Uwch Swyddog adfer swyddogaeth swyddog priodol ac nid yw'n anochel y byddai swyddog o'r fath yn "aelod o staff" y Cyd-bwyllgor Corfforedig, gan fod sawl ffordd y gall y Cyd-bwyllgor Corfforedig benodi staff (secondiad, cyflogi'n uniongyrchol, cytundeb lefel gwasanaeth).

Cwestiwn 2 c)

A yw Rheoliadau Drafft Rhif 2 yn Rhan 3 yn darparu'n glir i alluogi unigolion eraill i gyflawni swyddogaethau Cyd-bwyllgor Corfforedig?

Cafwyd pedwar ymateb ar bymtheg i'r cwestiwn hwn. Roedd pedwar ar ddeg o ymatebwyr o'r farn bod y darpariaethau yn Rhan 3 yn darparu'n glir i alluogi unigolion eraill i gyflawni swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, ac nid oedd dau ymatebwr yn credu eu bod yn gwneud hynny. Cafwyd sylwadau gan dri arall ond ni fynegwyd barn benodol ganddynt y naill ffordd na'r llall.

O'r rhai a oedd yn credu fod Rhan 3 yn darparu'n glir i alluogi unigolion eraill i gyflawni swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, gwnaed y pwyntiau ychwanegol a ganlyn:

- Roedd yn briodol i unigolion eraill gyflawni swyddogaethau a bod hynny'n cynnig hyblygrwydd i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ddirprwyo swyddogaethau i is-bwyllgor, aelod o staff, Cyd-bwyllgor Corfforedig neu awdurdod lleol arall.
- Nododd pum ymatebydd (gan ystyried y rheini a oedd yn cyfeirio'n benodol at sylwadau ar y mater hwn mewn rhannau eraill o'u hymatebion) fod Rheoliadau 33(7), 34(7), 35(7) a 36(7) wedi 'Cyfyngu ar allu unigolion eraill i gyflawni swyddogaethau' gan gynnwys 'cytuno ar bolisi trafndiaeth...' a '...paratoi cynllun datblygu strategol'. Roeddent yn teimlo bod y cyfyngiad hwn yn cyfyngu ar allu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i arfer y swyddogaethau hyn heb fod angen, ac yn teimlo y dylid felly ailedrych ar y gwelliannau hyn i ddarparu cymaint â phosib o ddisgresiwn a hyblygrwydd, a galluogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i wneud trefniadau i unigolion eraill gyflawni'r swyddogaethau cynllunio trafndiaeth ranbarthol a chynllunio datblygu strategol.
- Gofynnodd un ymatebydd am eglurhad ynghylch mater dirprwyon enwebedig a oedd yn mynychu ar ran yr Arweinydd, a nododd y gallai fod angen mecanweithiau i gefnogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i ddatrys materion pan na ellir dod i gonsensws.
- Nododd ymatebydd arall na fydd cylch gwaith y Panel Taliadau Annibynnol yn cynnwys tâl aelodau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ac roedd yn credu y byddai angen ystyried y trefniadau / goblygiadau tâl sy'n ymwneud ag Aelodau ac aelodau cyfetholedig y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

O'r rhai nad oeddent yn credu bod y darpariaethau mewn perthynas â dirprwyo swyddogaethau i eraill yn glir, teimlai Archwilydd Cyffredinol Cymru y byddai'n ddefnyddiol pe bai unrhyw drefniadau gan Gyd-bwyllgor Corfforedig i unigolion eraill gyflawni swyddogaethau yn cael eu gwneud yn ysgrifenedig. Roeddent yn teimlo y byddai hyn yn helpu i atal dryswch ynghylch cyfrifoldebau ac awdurdodiadau.

Yn ogystal, gwnaed y pwyntiau canlynol gan ymatebwyr nad oeddent yn mynegi barn y naill ffordd na'r llall ar eglurder Rhan 3 y Rheoliadau.

- Os bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ysgwyddo swyddogaethau cynghorau lleol at ddibenion penodol, nododd un ymatebydd y dylai fod yn ofynnol iddynt gael mesurau ar waith i gefnogi'r un lefelau o dryloywder, atebolrwydd a chyfranogiad.
- Cyfeiriodd ymatebydd arall at Reoliad 14(1)(b) a'r cyfeiriad at "aelod o staff". Roedd yn teimlo y dylai'r ddarpariaeth gyfeirio at "swyddog y Cyd-bwyllgor Corfforedig", er mwyn sicrhau cysondeb â deddfwriaeth llywodraeth leol, ac am yr un rheswm ag a amlinellwyd yn yr ymateb i C2c) uchod ar 'aelod o staff' ynteu 'swyddog'.
- Nododd un ymatebydd nad oedd darpariaeth gyfatebol i awdurdodau lleol ddirprwyo swyddogaethau i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.
- Ailadroddodd un ymatebydd ei farn ynghylch pwysigrwydd ymgysylltu'n barhaus ac yn gynnar â Chynghorau Tref a Chymuned ar waith y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Cwestiwn 2 d)

A yw Rheoliadau Drafft Rhif 2 yn Rhan 4 yn darparu'n glir ar gyfer rheoleiddio cyfarfodydd a thrafodion Cyd-bwyllgor Corfforedig?

Cafwyd ugain ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd pedwar ymatebydd ar ddeg yn teimlo fod Rhan 4 yn darparu'n glir ar gyfer rheoleiddio cyfarfodydd a thrafodion Cyd-

bwyllgor Corfforedig, nid oedd dau yn meddwl eu bod. Cafwyd sylwadau gan bedwar arall, ond ni fynegwyd barn benodol ganddynt y naill ffordd na'r llall.

O'r rhai a oedd yn credu fod Rhan 3 yn darparu'n glir ar gyfer rheoleiddio cyfarfodydd a thrafodion Cyd-bwyllgor Corfforedig, gwnaed y pwyntiau ychwanegol a ganlyn:

- Bod y dull gweithredu'n gyson â threfniadau llywodraeth leol yn gyffredinol, a bydd o gymorth i sicrhau cysondeb a thryloywder wrth wneud penderfyniadau.
- Croesawodd un ymatebydd y ffaith bod Rheoliad 23 yn cynnwys darparu mynediad i aelodau'r Parciau Cenedlaethol cyfansoddol at ddogfennau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.
- Mewn perthynas â Rheoliad 14 (7) a 14 (8) o Reoliadau Drafft Rhif 2 (trefniadau ar y cyd ar gyfer cyflawni swyddogaethau) dywedodd un ymatebydd y gallai fod goblygiadau i'r broses graffu os bydd dau neu ragor o Gyd-bwyllgorau Corfforedig yn dewis cyflawni unrhyw rai o'u swyddogaethau ar y cyd.

O'r rhai nad oeddent yn credu fod y darpariaethau'n glir mewn perthynas â staff, gwnaed y pwyntiau ychwanegol a ganlyn:

- Nid oedd yn glir beth yw'r dull mwy cyffredinol o roi deddfwriaeth llywodraeth leol ar waith, ac roedd yn ei gwneud yn anodd yn y lle cyntaf i olrhain effaith y newidiadau arfaethedig.
- Roedd gan un ymatebydd amheuan ynghylch y model, yn enwedig o ran mynediad at wybodaeth ac roedd yn teimlo, gan y gallai rhai adroddiadau eithriedig gynnwys gwybodaeth berthnasol i'w defnyddio gan y cyhoedd, y dylai aelodau'r Prif Awdurdodau gael mynediad at ddogfennau gan gynnwys y rheini sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig.

Yn ogystal, gwnaed y pwyntiau canlynol gan ymatebwyr nad oeddent yn mynegi barn y naill ffordd na'r llall ar eglurder Rhan 4 o Reoliadau Drafft Rhif 2:

- Mae un ymatebydd yn codi pwyntiau tebyg i'r rhai a ddisgrifir uchod mewn perthynas â rhoi mynediad at wybodaeth eithriedig i aelodau o Brif Awdurdodau. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch y trefniadau ariannol, yn enwedig y ffaith fod y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn penderfynu ar gyllideb cyn i awdurdod lleol cyfansoddol benderfynu arni. Teimlwyd y gallai'r cynigion hyn amharu ar graffu ar y trefniadau ariannol a mynediad at wybodaeth.
- Roedd un ymatebydd yn croesawu gallu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i gyfethol aelodau, ond nododd fod yn rhaid darparu cymorth ac adnoddau i unrhyw gynrychiolwyr sy'n cael eu cyfethol i sicrhau eu bod yn gallu manteisio i'r eithaf ar yr effaith y gallai'r rôl hon ei gynnig. Roeddent hefyd yn nodi cyfyngiadau posibl y dull presennol o gyfethol, o ran peidio â bod angen rhai aelodau cyfetholedig, ac na ddylai nifer pleidleisiau'r aelodau cyfetholedig fod yn fwy na phleidleisiau aelodau'r cyngor.
- Nododd un ymatebydd fod Rheoliad 15 yn gwahaniaethu rhwng aelodau cyfetholedig y Cyd-bwyllgor Corfforedig a phobl nad ydynt yn aelodau o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Roeddent yn teimlo y gallai'r gwahaniaethu hwn arwain at statws a rôl aneglur i aelodau'r is-bwyllgorau.
- Gofynnodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am eglurder ynghylch statws "unigolion eraill" yn Rheoliad 24, ynghylch pwy allai fod â hawl i siarad yng nghyfaryfodydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ac a fyddent yn cael eu heithrio o gyfarfodydd sy'n ystyried busnes "eithriedig". Roeddent yn nodi, os yw 'unigolion eraill' yn cynnwys pobl ar wahân i aelodau o staff nad

ydont yn “aelodau” o’r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ei bod yn bosibl i drydydd partïon nad ydynt yn ddarostyngedig i’r Cod Enghreifftiol ddylanwadu’n annheg ar benderfyniadau ar faterion y gallent fod â buddiant ynddynt os caniateir iddynt fynychu cyfarfodydd y mae aelodau o’r cyhoedd wedi’u heithrio ohonynt.

Cwestiwn 2 e)

A yw Rheoliadau Drafft Rhif 2 yn darparu’n glir yn Rhan 5 ar gyfer y nifer fach o ddiwygiadau amrywiol a chanlyniadol a nodwyd, gan gynnwys y newidiadau i’r Rheoliadau sy’n sefydlu’r Cyd-bwyllgorau Corfforedig?

Cafwyd dau ymateb ar bymtheg i’r cwestiwn hwn. Roedd un ymatebwr ar ddeg yn teimlo fod Rhan 5 yn darparu’n glir ar gyfer y nifer fach o ddiwygiadau amrywiol a chanlyniadol a nodwyd, gan gynnwys y newidiadau i’r Rheoliadau sy’n sefydlu’r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Nid oedd dau ymatebwr yn meddwl eu bod. Cafwyd sylwadau gan bedwar arall, ond ni wnaethant fynegi barn benodol y naill ffordd na’r llall.

O’r rhai hynny a oedd yn teimlo fod Rhan 5 yn darparu’n glir ar gyfer y nifer fach o ddiwygiadau amrywiol a chanlyniadol a nodwyd, gan gynnwys y newidiadau i’r Rheoliadau sy’n sefydlu’r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gwnaed y sylwadau ychwanegol a ganlyn:

- Ar hyn o bryd, bod y darpariaethau y credir eu bod yn angenrheidiol er mwyn ymestyn y darpariaethau mewn deddfwriaeth llywodraeth leol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, yn ddefnyddiol er mwyn sicrhau cysondeb a thryloywder wrth wneud penderfyniadau.
- Y dylai Llywodraeth Cymru fod yn fodlon bod Canllawiau Cynllunio yn cael eu hadlewyrchu’n llawn yn null y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ac yn enwedig yr ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned, a’u cyfranogiad.

O’r rhai nad oeddent yn credu fod y darpariaethau’n glir yn Rhan 5, gwnaed y pwyntiau ychwanegol a ganlyn:

- Tynnodd un ymatebydd sylw at ddryswch posibl ynghylch y dull gweithredu ar gyfer aelodaeth fel y darperir ar ei gyfer yn y Rheoliadau sy’n sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig, fel y’i diwygiwyd gan Reoliadau Drafft Rhif 2. Yn benodol ar hawl pleidleisio aelodau o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol - pryd byddant yn gallu gweithredu fel aelodau a phryd bydd gweithredu fel aelodau’n cynnwys y gallu i bleidleisio ar eitem. Roeddent yn credu y dylai Rheoliadau Drafft Rhif 2 nodi’n glir hefyd bod gan aelodau’r cyngor hawl i bleidleisio ar bob eitem o fusnes y Cyd-bwyllgor Corfforedig.
- Nid oedd yn glir beth yw’r dull mwy cyffredinol o roi deddfwriaeth llywodraeth leol ar waith, ac roedd yn ei gwneud yn anodd yn y lle cyntaf i olrhain effaith y newidiadau arfaethedig.
- Dylai Rheoliad 31, sy’n ychwanegu darpariaeth at gynlluniau deisebau Cyd-bwyllgorau Corfforedig, yn adran 42 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, hefyd newid teitlau’r penodau a’r adrannau perthnasol i helpu hygyrchedd.

Yn ogystal, gwnaed y pwyntiau canlynol gan ymatebwyr nad oeddent yn mynegi barn y naill ffordd na’r llall ar eglurder Rhan 5 o Reoliadau Drafft Rhif 2.

- Tynnodd pedwar ymatebydd sylw at ddryswch posibl ynghylch y dull gweithredu ar gyfer aelodaeth, fel y darperir ar ei gyfer yn y Rheoliadau sy'n sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Drafft Rhif 2. Yn benodol ar hawl pleidleisio aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol.
- Nododd un ymatebydd nad yw Rheoliadau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gwahaniaethu rhwng aelod cyfetholedig ac ymgynghorydd i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Y dybiaeth felly yw na fydd angen cytundeb cyfethol er mwyn penodi ymgynghorydd. Fodd bynnag, teimlai'r ymatebydd y gellid gwneud hyn yn gliriach, naill ai drwy'r Rheoliadau neu drwy Ganllawiau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.
- Nododd tri ymatebydd fod Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (IRPW) yn gymwys i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, ond roeddent yn teimlo y dylid dileu'r cyfyngiad sydd wedi'i gynnwys yn Rheoliad 4(2) ar gwmpas pwerau'r Panel er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb â'r cynghorau cyfansoddol a gymaint o hyblygrwydd â phosibl.
- Cafwyd sylwadau gan dri ymatebydd ynghylch caniatáu unigolion eraill i gyflawni swyddogaethau. Rhoddwyd ystyriaeth i'r rhain yn yr ymatebion i Ran 3 (C2c) uchod, ac nid ydynt yn cael eu hatgynhyrchu yma.

Cwestiwn Tri'r Ymgynghoriad:

Roedd Cwestiwn 3 yn gofyn am farn am yr effeithiau penodol y gallai Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig Drafft (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cafwyd un ymateb ar bymtheg i'r cwestiwn hwn. Roedd yr ymatebion yn cynnwys cymysgedd eang o farn gan gynnwys mewn perthynas â safonau'r Gymraeg yn fwy cyffredinol. O'r rhai a ymatebodd yn uniongyrchol i'r effeithiau y byddai Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig Drafft (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 yn eu cael ar y Gymraeg, nid oedd chwe ymatebydd yn teimlo y byddai Rheoliadau Drafft Rhif 2 yn cael unrhyw effaith sylweddol ar y Gymraeg, neu roeddent yn fodlon â'r ddarpariaeth sydd ar waith.

Er nad oedd y Rheoliadau'n cynnwys cyfeiriadau at y bwriad i gymhwyso safonau'r Gymraeg i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, manteisiodd nifer o ymatebwyr ar y cyfle i roi sylwadau ehangach ar Gyd-bwyllgorau Corfforedig a'r Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys:

- Nifer yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i ddiwygio Rheoliadau i ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforedig at Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1).
- Roedd nifer yn croesawu y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg, ond yn gofyn am eglurder ynghylch pryd y byddai hyn yn digwydd a pha safonau y byddai'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig iddynt, gan awgrymu y dylid mynd ati i weithredu'r safonau cyn gynted â phosibl.
- Roedd un yn teimlo y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig weithredu yn unol â pholisïau iaith y Prif Gynghorau eu hunain, ond fod angen i bob mater sy'n ymwneud â Chyd-bwyllgorau Corfforedig lynu wrth bolisïau iaith cymeradwy fan lleiaf.
- Gofynnodd dau ymatebydd am eglurder ynghylch a fyddai Comisiynydd y Gymraeg yn disgwyl i Gyd-bwyllgorau Corfforedig fabwysiadu safonau mwyaf cynhwysfawr eu hawdurdodau cyfansoddol, a pha effaith y gallai hynny ei chael ar yr awdurdodau eraill, neu yn wir a ddylid nodi hyn yn y Rheoliadau.
- Cododd tri ymatebydd bryderon penodol ynghylch gallu awdurdodau cyfansoddol i gefnogi'r gofynion cyfieithu ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gan nodi'n benodol y costau ychwanegol posibl (pwysau cyllido) o ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Cwestiwn Pedwar yr Ymgynghoriad

Roedd cwestiwn 4 yn gofyn i ymatebwyr godi unrhyw faterion cysylltiedig nad oedd wedi cael sylw penodol ar unrhyw adeg arall yn holiadur yr ymgynghoriad.

Cafwyd pedwar ymateb ar ddeg i'r cwestiwn hwn. Roedd rhai o'r ymatebion yn ymwneud â dull y Cydbwyllgor Corfforedig yn gyffredinol, a mynegodd rhai eu barn ar rannau penodol o'r ddeddfwriaeth. Gellir crynhoi'r ymatebion fel a ganlyn:

- Tynnodd y ddau awdurdod Tân ac Achub a ymatebodd sylw at y cysylltiadau strategol gyda'r cynghorau cyfansoddol ac o bosibl y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gan awgrymu y gallai fod angen rôl fwy ffurfiol ac wedi'i ffurfioli ar eu cyfer ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, fel cyfranogwyr cyfetholedig efallai. Awgrymodd un o'r awdurdodau Tân ac Achub fod hyn yn cynnwys caniatáu mynediad at ddogfennau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn yr un modd ag y darperir ar gyfer aelodau o'r prif gynghorau yn Rheoliad 22 (mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai Rheoliad 23 y dylai hwn fod) Rheoliadau Drafft Rhif 2).
- Roedd gan CGGC rai pryderon ynghylch effaith bosibl y dull Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar bartneriaethau a pherthnasoedd presennol, yn enwedig gyda'r Byrddau Iechyd, er enghraifft drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Gofynnwyd hefyd am eglurder ynghylch y berthynas, os o gwbl, rhwng y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a swyddogaethau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- Manteisiodd un ymatebydd ar y cyfle i awgrymu y dylai Rheoliadau ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod ar gael mewn un ddogfen, a phwysleiswyd eu barn ei bod yn bwysig cael y ddeddfwriaeth angenrheidiol cyn i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig orfod pennu eu cyllideb gyntaf ym mis Ionawr 2022.
- Manteisiodd tri ymatebydd ar y cyfle i dynnu sylw at feysydd deddfwriaethol ychwanegol y gallai fod angen eu hystyried ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys:
 - o statws TAW y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys cymhwyso unrhyw eithriadau i awdurdod lleol
 - o eglurder ynghylch cwmpas gallu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i fenthyca, i fuddsoddi ac i weithredu'n fasnachol
 - o cymhwyso'r Rheoliadau Caffael Cyhoeddus a'r Drefn Rheoli Cymhorthdal i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig
- Nododd ymatebwr arall y dylai aelodau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig (gan gynnwys aelodau cyfetholedig) fod yn ddarostyngedig i'r cod ymddygiad statudol, ac mai pwylgor safonau lleol/ ar y cyd ddylai ystyried unrhyw dor-amodau honedig.
- Roedd nifer yn croesawu trafodaethau ar y berthynas rhwng y Cyd-bwyllgor Corfforedig a strwythurau presennol y Fargen Ddinesig, ac amseriad unrhyw ddulliau gweithredu ar gyfer ehangu gweithgarwch y Fargen Ddinesig i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Roedd yr un ymatebwyr hefyd yn croesawu trafodaethau ar y posibilrwydd o drosglwyddo swyddogaethau ychwanegol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, a'r amseriad posibl ar gyfer hynny.
- Tynnodd un ymatebydd sylw at ddryswch posibl (yn ychwanegol i'r rhai a nodwyd yn C2e) ynghylch y dull gweithredu ar gyfer aelodaeth fel y darperir ar ei gyfer yn y Rheoliadau sy'n sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig Drafft (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021. Roedd hyn yn cyfeirio'n benodol at aelodau o Awdurdod y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys eglurder o ran pa bryd y byddant yn gallu

gweithredu fel aelodau a phryd bydd gweithredu fel aelod yn cynnwys gallu pleidleisio ar eitem.

- Manteisiodd un ymatebydd ar y cyfle i dynnu sylw at bwysigrwydd craffu ar Gyd-bwyllgorau Corfforedig er mwyn sicrhau atebolrwydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig i'w cynghorau cyfansoddol, ac aelodau'r cynghorau cyfansoddol hynny. Roedd yr ymatebydd yn siomedig nad oedd Rheoliadau wedi'u cynnig eto i gynnwys materion o'r fath.
- Tynnodd un ymatebydd sylw at gostau ychwanegol a pharhaus y Cyd-bwyllgorau Corfforedig i'r cynghorau cyfansoddol, gan ychwanegu mai Llywodraeth Cymru ddylai dalu costau o'r fath yn eu barn hwy.
- Roedd un ymatebydd yn cynnwys sylwadau penodol ar y dyletswyddau yn Rheoliad 8(3) Rheoliadau Drafft Rhif 2, gan nodi'r gwrthgyferbyniad â darpariaeth debyg yn adran 5(b) Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Er cysondeb, ac er mwyn sicrhau bod gan y Swyddog Monitro'r adnoddau sydd eu hangen arnynt, teimlai'r ymatebydd y dylai Rheoliad 8(3) ddilyn yr un dull gweithredu ag adran 5(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Hynny yw, barn y swyddog Monitro ac nid y Cyd-bwyllgor Corfforedig ddylai bennu faint o staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd eu hangen i gyflawni'r swyddogaethau yn Rheoliad 8.
- Nodwyd pwysigrwydd ystyried llwyddiant y trefniadau rhanbarthol ffurfiol ac anffurfiol presennol, a sut y gallai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig adeiladu ar hyn, tra'n deall ar yr un pryd y gallai'r trefniadau rhanbarthol ddefnyddio capasiti aelodau a staff awdurdodau lleol sydd eisoes dan bwysau, ac na ddylai'r trefniadau rhanbarthol gael effaith niweidiol ar y cynghorau cyfansoddol. Gofynnodd yr ymatebydd am gydnabyddiaeth, er y gallai'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn gyfrifol am gynllunio trafndiaeth ranbarthol, er enghraifft, bydd y ddarpariaeth yn dal i ddigwydd ar lefel leol.
- Pwysigrwydd eglurder ynghylch yr amserlen ar gyfer cyfarfodydd cychwynnol y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a dynodi staff i ddarparu cymorth llywodraethu cychwynnol, ac er mwyn cytuno'n gynnar ar drefniadau llywodraethu – pleidleisio, amlder cyfarfodydd, polisiau a gweithdrefnau, trefniadau craffu, cytuno ar reolau sefydlog a blaenraglen waith.
- Nododd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei ymateb fod Rheoliadau Drafft Rhif 2 yn dibynnu ar yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol a osodwyd fel rhan o'r Rheoliadau sy'n sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Nododd yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus fod ei swyddfa wedi gweld cynnydd sylweddol mewn cwynion sy'n ymwneud â'r cod ymddygiad, a lle'r oedd Rheoliadau cyffredinol yn y dyfodol yn ceisio cymhwyso'r cod ymddygiad i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, dylid ystyried y cynnydd posibl mewn costau i swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o fod ag awdurdodaeth dros gorff ychwanegol.

Darparodd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol un ymateb cyffredinol i'r ymgynghoriad ar Rheoliadau Drafft Rhif 2. Yn ei ymateb, credai'r Panel fod Rheoliad 4(2) o Rheoliadau Drafft Rhif 2, sy'n diwygio Adran 142 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yn tansellio annibyniaeth a gallu'r Panel yn sylfaenol gan ei fod yn atal, am y tro cyntaf, eu gallu i wneud unrhyw benderfyniad mewn cysylltiad ag "awdurdod perthnasol". Nodwyd mai un o gryfderau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, sydd o fudd i Lywodraeth Cymru, yw ei annibyniaeth statudol i wneud penderfyniadau heb i Weinidogion Cymru na rhanddeiliaid y Panel ddylanwadu arnynt. Nodwyd nad oes cyfiawnhad i dalu aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wrth iddo gael ei ffurfio, ond efallai na fydd hyn

bob amser yn wir. Roeddent yn teimlo fod posibilrwydd y gallai cyfrifoldebau aelodau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig gynyddu i'r fath raddau fel y gellid cyfiawnhau gwneud taliadau gyda gostyngiad cyfatebol yn y taliadau a wneir i uwch aelodau awdurdodau cyfansoddol. Felly, pwysodd y Panel yn gryf ar Lywodraeth Cymru i ailystyried cynnwys yr Adran hon drwy ddileu'r cyfyngiad ar gylch gwaith Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn Rheoliad 4(2). Roedd nifer o ymatebwyr eraill hefyd yn teimlo y dylai cylch gwaith y Panel gynnwys ystyriaeth i dâl aelodau.

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Ymgynghoriad ar Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforaethol Drafft (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021.

Ar y cyfan, teimlai'r ymatebwyr fod Rheoliadau Drafft Rhif 2 yn glir, ac yn adlewyrchu'r egwyddorion sylfaenol y dylid trin Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel aelodau o deulu llywodraeth leol. Yn gyffredinol, roedd yn glir bod Rheoliadau Drafft Rhif 2 yn cynnwys y darpariaethau y credir eu bod yn angenrheidiol er mwyn ymestyn yr agweddau hyn o ddeddfwriaeth llywodraeth leol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, a bydd hyn yn ddefnyddiol er mwyn sicrhau cysondeb a thryloywder wrth wneud penderfyniadau.

Codwyd pryderon, fodd bynnag, ynghylch y dull a ddefnyddiwyd i gymhwyso deddfwriaeth llywodraeth leol, hynny yw, cymhwyso deddfwriaeth bresennol llywodraeth leol fesul cam, yn hytrach na chreu un set o ddarpariaeth deddfwriaethol newydd ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Teimlai rhai y gallai'r dull hwn ei gwneud yn anodd canfod ffordd drwy'r deddfwriaeth sy'n berthnasol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Fodd bynnag, cytunwyd gyda llywodraeth leol ar y dull hwn o gymhwyso'r fframwaith deddfwriaethol llywodraeth leol, ac mae'n helpu i sicrhau bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i'r un fframwaith deddfwriaethol y mae llywodraeth leol eisoes yn gyfarwydd ag ef mewn ffordd sydd wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r modd y caiff ei gymhwyso. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraeth leol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig i fapio / disgrifio'r fframwaith deddfwriaethol llawn ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig, fel y gofynnodd nifer o ymatebwyr amdano, ar ôl cwblhau'r gwaith o roi'r fframwaith ar waith.

Er bod Rheoliadau Drafft Rhif 2 yn ymdrin â nifer fach o feysydd penodol o ddeddfwriaeth llywodraeth leol, manteisiodd ymatebwyr ar y cyfle i godi nifer o faterion mwy cyffredinol mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig.

Cyllido Cyd-bwyllgorau Corfforedig

Codwyd nifer o bryderon mwy cyffredinol ynghylch cyllido / ariannu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gydnabod nad yw'r gofynion o ran adnoddau, ac effaith sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar gapasiti cynghorau cyfansoddol, wedi cael eu nodi'n llawn eto. Cydnabuwyd hefyd yr angen i ystyried y gofynion parhaus o ran adnoddau wrth weinyddu a chyflawni swyddogaethau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £1m ar gyfer 2021/22 i gefnogi'r gwaith o sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig a

sefydlwyd ym mis Ebrill 2021 wedi cyflwyno ceisiadau llwyddiannus am grantiau, pob un â chyfanswm o £250k i gefnogi costau gweinyddol sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Bydd costau cyffredinol a pharhaus gweinyddu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn dibynnu i raddau helaeth ar benderfyniadau pob Cyd-bwyllgor Corfforedig o ran y ffordd maent yn dewis cyflawni eu swyddogaethau. Mae'r model cyllido, lle mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cytuno ar gyfran y cyllid y bydd pob un o'r cynghorau cyfansoddol yn ei ddarparu, yn adlewyrchu dymuniad Arweinyddion yr awdurdod lleol o ran sut bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael eu hariannu. Mae'n bwysig nodi bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn adeiladu ar y trefniadau llywodraethu rhanbarthol presennol neu'n trosglwyddo gweithgarwch presennol (neu elfennau o weithgarwch presennol) sydd eisoes yn cael eu gwasanaethu gan gynghorau cyfansoddol, o'r cynghorau cyfansoddol i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Trefniadau staffio ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig

Cododd nifer o ymatebwyr faterion ynghylch sut y byddai trefniadau'n cael eu gwneud ar staffio Cyd-bwyllgor Corfforedig, gan gynnwys defnyddio adnoddau awdurdodau lleol a'r goblygiadau posibl o ran capasiti yn yr awdurdodau hynny, a'r angen am hyblygrwydd yn y dull gweithredu. Fel y nodwyd gennym yn yr ymateb i'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau sy'n sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig, mae'r Rheoliadau hynny'n darparu disgrisiwn lleol i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig wneud ei drefniadau ei hun ar y ffordd y byddai staff yn cael eu cyflogi, gan gynnwys ei uwch swyddogion gweithredol. Byddai hyn yn cynnwys benthyciadau, secondiadau, cyflogaeth uniongyrchol neu drefniadau eraill fel y mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ei ystyried yn briodol. Rhagwelir y gallai trefniadau o'r fath ddatblygu dros amser wrth i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ddatblygu a dechrau cyflawni ei swyddogaethau strategol allweddol.

Cyfethol i Gyd-bwyllgor Corfforedig

Cododd nifer o ymatebwyr faterion yn ymwneud â darparu ar gyfer rhai aelodau cyfetholedig, neu fynnu eu bod yn cael eu caffael, a phwysigrwydd ymgysylltu â phartneriaid rhanbarthol wrth arfer swyddogaethau Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch cyfyngiadau posibl cyfethol, lle na all nifer yr aelodau cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio fod yn fwy na nifer yr aelodau sy'n pleidleisio. Lle'r oedd partneriaid yn cael eu cyfethol, nodwyd ei bod yn bwysig darparu cyngor a chefnogaeth briodol i aelodau cyfetholedig i gyflawni eu rolau.

Mae'r Rheoliadau i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn rhoi'r hyblygrwydd i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ymgysylltu â phobl eraill a'u cynnwys yn eu gwaith drwy gyfethol. Mater i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd penderfynu pwy sy'n cael ei gyfethol, a sut maent yn cael eu cyfethol (telerau'r cyfethol). Mewn rhai achosion, gall aelodau hefyd alluogi aelodau cyfetholedig i bleidleisio ar faterion o'r fath. Er nad oes rhaid i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig gyfethol, byddant eisiau ystyried y math a'r ystod o sefydliadau y maent yn dymuno iddynt gael eu cynrychioli gan gyfranogwyr cyfetholedig, yn seiliedig ar y sgiliau a'r profiad a fydd yn fuddiol ac yn berthnasol i'w gwaith.

Mae Rheoliadau Drafft Rhif 2 yn darparu y bydd aelodau cyfetholedig yn cael eu trin ac yn cael yr un hawliau, mesurau diogelu ac ati (ac eithrio hawl pleidleisio) ag

aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Felly, dylai aelodau cyfetholedig gael mynediad at gyngor a chymorth priodol wrth gyflawni eu rôl ar Gyd-bwyllgor Corfforedig.

Mewn rhai achosion, megis Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru sydd â dim ond dau gyngor cyfansoddol, gallai mabwysiadu gweithdrefn bleidleisio amgen fod yn gymorth i gynnwys eraill drwy gyfethol, yn enwedig os oedd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dymuno rhoi hawliau pleidleisio i gyfranogwyr cyfetholedig.

Darpariaethau deddfwriaethol eraill ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd yn nodi nifer o ddarpariaethau deddfwriaethol a ddylai fod yn berthnasol / neu y dylid eu hystyried yn berthnasol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Er enghraifft, roedd hyn yn cynnwys rhai eithriadau TAW a roddir i awdurdodau lleol, cymhwyso'r Rheoliadau Caffael Cyhoeddus a'r cynllun Rheoli Cymhorthdal, a chwmpas gallu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i fenthyca, i fuddsoddi ac i weithredu'n fasnachol. Yn ogystal, gwnaed nifer o bwyntiau ar drefniadau craffu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, trefniadau nad ydynt wedi'u cymhwyso eto i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Cyfeiriodd nifer yn benodol at gymhwyso'r Fframwaith Moesegol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys defnyddio pwyllgorau safonau cynghorau cyfansoddol, cymhwyso'r fframwaith moesegol i unrhyw un sy'n ymwneud â gwaith y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a'r angen am eglurder ynghylch cymhwyso Panel Dyfarnu Cymru a phwerau i atal a gwahardd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Rydym yn cydnabod safbwynt Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru y dylid diwygio'r cod ymddygiad cyn gynted â phosibl er mwyn ei gymhwyso i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Mae darpariaethau mewn perthynas â gallu Cyd-bwyllgor Corfforedig i fenthyca a buddsoddi eisoes wedi eu darparu yn Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2021. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda llywodraeth leol i gyd-ddatblygu gweddill Rheoliadau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac archwilio cynnwys y darpariaethau a nodwyd ar gyfer gweithredu'n fasnachol (e.e. y pŵer i fasnachu) mewn cyfrannau o Reoliadau yn y dyfodol. Yn nes ymlaen yn 2021, rydym yn bwriadu ymgynghori ar Reoliadau sy'n cymhwyso'r fframwaith moesegol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, ac effaith cymhwyso darpariaethau o'r fath i Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

Materion Gweithredol

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ac yn cytuno â'r sylwadau yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad sy'n ceisio sicrhau bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ystyried llwyddiannau'r trefniadau rhanbarthol presennol ac yn adeiladu arnynt. Mae Llywodraeth Cymru yn gweld Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel mecanwaith lle gellir cyfuno nifer o'r trefniadau rhanbarthol presennol er mwyn sicrhau cysondeb, lleihau dyblygu a lleihau'r baich gweinyddol ar lywodraeth leol. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda llywodraeth leol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, yn benodol i gefnogi trafodaethau ar y berthynas â threfniadau presennol y Fargen Ddinesig / y Fargen Twf, a sut gallwn gefnogi'r broses o drosglwyddo trefniadau o'r fath yn unol â dyheadau rhanbarthol.

Canllawiau

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ganllawiau ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Gellir mynd i'r afael â nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, yn enwedig y meysydd hynny sy'n gofyn am ragor o eglurder ar bynciau penodol, drwy'r canllawiau ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig a byddant yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ganllawiau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft:

- eglurder ynghylch trefniadau ar gyfer cyfarfodydd, dynodi staff i ddarparu cymorth llywodraethu, ac ar gyfer cytuno'n gynnar ar drefniadau llywodraethu – pleidleisio, amllder cyfarfodydd, polisïau a gweithdrefnau, trefniadau craffu, cytuno ar reolau sefydlog a blaenraglen waith.
- Y berthynas gyda phartneriaethau rhanbarthol statudol eraill megis y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- Rôl ymgynghorwyr, sut maen nhw'n cael eu penodi, a'u statws o fewn y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys materion yn ymwneud â mynediad at ddogfennau, yn enwedig y rheini sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig
- eglurder ynghylch mater dirprwyon enwebedig yn mynychu ar ran yr Arweinydd
- opsiynau ar gyfer datrys anghydfod.

Fodd bynnag, bydd nifer sylweddol o'r uchod yn dibynnu ar y penderfyniadau y bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn eu gwneud ynghylch sut y mae'n dymuno llywodraethu a gweinyddu ei hun, a sut mae'n dymuno arfer ei swyddogaethau.

O ran adborth ar fanylion y Rheoliadau Drafft, codwyd nifer o faterion penodol ynghylch y darpariaethau eu hunain.

Roedd y rhain yn cynnwys:

- Dylid dileu'r cyfyngiad sydd wedi'i gynnwys yn Rheoliad 4(2) ar gwmpas pwerau'r Panel er mwyn sicrhau eglurder, cysondeb â'r cynghorau cyfansoddol, a chymaint o hyblygrwydd â phosib.
- Byddai'n ymddangos bod y darpariaethau ar gyfer y Swyddog Monitro yn glir dan Reoliad 8(3) yn groes i'r geiriad yn Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 i'r graddau y mae darpariaeth Deddf 1989 mewn grym yn darparu y bydd y staff, y llety a'r adnoddau a nodwyd sy'n ofynnol ym marn y Swyddog Monitro yn cael eu darparu, ac y dylid eu diwygio i adlewyrchu Deddf 1989.
- Y gallai'r gwaharddiad ar y Swyddog Monitro rhag darparu cyngor cyfreithiol yn Rheoliadau 8(2) beri dryswch wrth ystyried dyletswyddau ehangach y Swyddog Monitro yn rhinwedd cymhwyso Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 i Gyd-bwyllgorau Corfforedig.
- Dylai Rheoliad 9, sy'n mewnosod is-adran 3A newydd yn adran 270 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sy'n debyg i adran 270(3) o'r Ddeddf honno, gyfeirio at 'swyddogion' yn hytrach nag at 'aelod o staff' gan nad oedd o reidrwydd yn wir y byddai rolau'r swyddog gweithredol yn cael eu llenwi gan yr hyn y cyfeirir ato'n draddodiadol fel aelod o staff.
- Mae Rheoliadau 33(7), 34(7), 35(7) a 36(7) a oedd yn cyflwyno Cyfyngiad ar unigolion eraill rhag cyflawni swyddogaethau (o ran Swyddogaethau Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynllunio Datblygiadau Strategol) yn cyfyngu ar allu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i arfer y swyddogaethau hyn heb fod angen, ac yn teimlo y dylid felly ailystyried y gwelliannau hyn i ddarparu cymaint â

phosib o ddisgresiwn a hyblygrwydd, a galluogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i wneud trefniadau i unigolion eraill gyflawni'r swyddogaethau cynllunio Trafnidiaeth a Chynllunio Datblygu Strategol.

Bwriedir diwygio'r Rheoliadau Drafft Rhif 2 i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan gynnwys er mwyn:

- dileu'r cyfyngiad ar gwmpas y Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol i wneud penderfyniadau ar dâl aelodau o Gyd-bwyllgor Corfforedig
- sicrhau bod 8(3) yn adlewyrchu'n well y geiriad yn Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r farn am y staff, y llety a'r adnoddau a nodwyd sydd eu hangen i gyflawni swyddogaethau'r Swyddog Monitro
- dileu'r gwaharddiad ar y swyddog Monitro rhag darparu cyngor cyfreithiol yn Rheoliad 8(2)
- newid 'aelod o staff' i fod yn 'swyddog' yn Rheoliad 9 neu, lle nad yw hyn yn bosibl, dylid sicrhau yr ystyrir bod unrhyw gyfeiriad at 'aelod o staff' yn y Rheoliad hwn, neu mewn man arall yn Rheoliadau Drafft Rhif 2, yn golygu aelod o staff sut bynnag y'i penodir (e.e. drwy secondiad, cytundeb lefel gwasanaeth, dirprwyo swyddogaethau, neu gyflogaeth uniongyrchol)
- caniatáu i unigolion eraill, fel y bo'n briodol, gyflawni swyddogaethau Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynllunio Datblygu Strategol y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gadw'r gofyniad i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gymeradwyo unrhyw gynllun, strategaeth ar gyfer mabwysiadu / adolygu gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig neu ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

O ran cyflawni swyddogaethau, gofynnodd un ymatebydd am eglurhad ynghylch pam nad oedd darpariaeth gyfatebol i awdurdodau lleol ddirprwyo swyddogaethau i Gyd-bwyllgor Corfforedig. Dim ond y swyddogaethau a roddwyd iddo (mewn Rheoliadau) y caiff Cyd-bwyllgor Corfforedig eu harfer. Ni all awdurdod lleol ddirprwyo swyddogaethau i Gyd-bwyllgor Corfforedig lle nad oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig eisoes bwerau i gyflawni'r swyddogaethau hynny. Lle byddai llywodraeth leol am i Gyd-bwyllgorau Corfforedig allu arfer un o swyddogaethau awdurdod lleol (nad oedd eisoes yn un o swyddogaethau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig), mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwneud hynny.

Lle mae gan Gyd-bwyllgor Corfforedig swyddogaethau y gall eu harfer ar yr un pryd â'i gynghorau cyfansoddol, er enghraifft y swyddogaeth Lles Economaidd, ni fyddai angen i Awdurdod Lleol ddirprwyo'r pŵer hwnnw i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gan fod eisoes ganddo'r pŵer hwnnw. Fodd bynnag, bydd angen i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ddod i gytundebau â'r cynghorau cyfansoddol er mwyn cael eglurder ynghylch pwy sy'n gwneud beth, pryd, ble a sut. Bydd cynghorau cyfansoddol yn gallu cytuno bod rhai pethau'n cael eu gwneud felly ar lefel ranbarthol, ond nid yw hyn yr un fath â dirprwyo.

Yn ogystal â'r uchod, roedd nifer o ymatebwyr wedi eu drysu gan y sefyllfa o ran hawliau pleidleisio aelodau'r Awdurdodau Parc Cenedlaethol wrth ystyried y diwygiadau i Rheoliad 6, 8 a 9 y Rheoliadau Sefydlu (Rhan 5 Rheoliadau Rhif 2 Cyffredinol – Rheoliad 33(3), (5) a (6)). Teimlwyd y gallai'r darpariaethau wrth-ddweud eu hunain o ran pryd yr oedd yr Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol yn

aelod ac, wrth weithredu fel aelod ar gyfer eitem benodol, os oedd ganddynt hawl i bleidleisio ar yr eitem honno.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau'n darparu bod yr aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol yn aelod at ddibenion y swyddogaeth Cynllunio Datblygu Strategol a bod ganddo hawl i bleidleisio ar unrhyw faterion, gan gynnwys materion atodol, mewn perthynas â'r swyddogaeth honno. Caiff yr aelod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol hefyd, drwy gytundeb ag aelodau'r cyngor, fod yn aelod at ddibenion arfer swyddogaethau eraill y Cyd-bwyllgor Corfforedig (sef yr hyn y mae Rheoliadau 8 a 9 yn darparu ar ei gyfer). Byddai unrhyw gytundeb i ymestyn aelodaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol i swyddogaethau eraill yn cynnwys cytundeb ynghylch a oes gan yr aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol hawl i bleidleisio ar y swyddogaeth honno. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu'r darpariaethau i sicrhau bod hyn yn glir, ac os yw'n briodol, byddwn yn cynnwys disgrifiad pellach o'r trefniant hwn yng nghanllawiau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

O ran effaith Rheoliadau Drafft Rhif 2 ar y Gymraeg, mae Llywodraeth Cymru yn croesawu barn gyffredinol ymatebwyr na fyddai Rheoliadau Drafft Rhif 2 yn cael unrhyw effaith sylweddol ar y Gymraeg. Nodwn hefyd fod ymatebwyr wedi gofyn am sicrwydd y byddai Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1 yn gymwys i Gyd-bwyllgorau Corfforedig cyn gynted â phosibl. Gallwn gadarnhau mai bwriad Llywodraeth Cymru yw gosod Rheoliadau diwygio i Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 1 ochr yn ochr â Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru), a fydd yn ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforedig at Rheoliadau Rhif 1 Safonau'r Gymraeg.

Atodiad A: Rhestr o'r ymatebwyr

Awdurdod Lleol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Dinas Abertawe
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bro Morgannwg
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Asiantaethau'r Llywodraeth / sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol

Y Trydydd Sector

CGGC

Archwilydd / Rheoleiddiwr

Archwilio Cymru

Cyrff cynrychioli, cyrff neu gymdeithasau proffesiynol

Un Llais Cymru